Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN06:

- **Gwastraff Bwyd**

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | Ben Harris (Swyddog yr Amgylchedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |
| **Dyddiad y fersiwn:** | 06/03/2026 |

| Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN06<br>Gwastraff bwyd | |
|---|---|
| **Lleoliad Cynhyrchu** | Pob man |
| **CÔD GWASTRAFF EWROPEAIDD (EWC)** | 20 01 08 |
| **Math** | Gwastraff trefol nad yw'n beryglus |
| **Dull Gwaredu** | Gwahanu i'w ailgylchu/treulio anaerobig |
| **Math o Fin/Fag** | Blwch gwastraff bwyd |

## Gofynion y Ddyletswydd Gofal

**20 01 08 -** Gwastraff bioddiraddadwy ceginau a ffreuturau

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n creu deunyddiau gwastraff ddefnyddio'r hierarchaeth gwastraff ar gyfer pob ffrwd, er mwyn lleihau swm y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w waredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei wahanu yn y ffynhonnell a'i waredu drwy'r ffrwd gywir.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i wahanu ei gwastraff cyn ei waredu a chanolbwyntio ar wahanu'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastigion, bwyd a gwydr. Mae gwahanu deunyddiau cyn eu gwaredu yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae'r rheoliadau'n nodi bod rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastigion a gwydr ar wahân, os oes angen, er mwyn annog ansawdd uchel y deunyddiau wedi'u hailgylchu.

Ym mis Ebrill 2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd sy'n gymwys i bob busnes yng Nghymru. Ceir gofyniad cyfreithiol i wahanu o dan y rheoliadau canlynol: Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023.

Mae'r Brifysgol wedi gosod blychau gwastraff bwyd yng ngheginau'r holl breswylfeydd, mewn swyddfeydd staff ym mhob adeilad ac wedi'u dosbarthu i'r holl ddarparwyr bwyd blaen tŷ a'r tu ôl i'r llenni. Caiff holl wastraff bwyd y Brifysgol ei anfon i'w dreulio'n anaerobig, proses sy'n creu bionwy a bio-wrtaith.

## Eitemau

Dyma rai o'r eitemau sy'n addas i'w rhoi ym mlychau gwastraff bwyd a biniau gwastraff bwyd y Brifysgol:

- plicion ffrwythau a llysiau
- bwyd wedi'i goginio dros ben (e.e. reis, pasta, llysiau)
- bagiau te a grownds coffi
- plisg wyau
- bwyd sydd wedi pydru/llwydo
- cig a physgod (amrwd neu wedi'i goginio)
- cynnyrch llaeth
- esgyrn bach hyd at ac yn cynnwys sgerbwd cyw iâr

Ni ddylai'r canlynol **byth** gael eu rhoi yn y biniau gwastraff bwyd:

a) pecynnu bwyd compostadwy/bioddiraddadwy
b) pecynnu plastig
c) cyfeintiau mawr o hylifau

Ceir arweiniad ychwanegol ar ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn Casglu deunyddiau gwastraff ar wahân ar gyfer ailgylchu: côd ymarfer Cymru - Atodiad 4

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Y Tu Mewn

Mae'r Brifysgol wedi gosod blychau gwastraff bwyd yng ngheginau'r holl breswylfeydd, mewn swyddfeydd staff ym mhob adeilad ac wedi'u dosbarthu i'r holl ddarparwyr bwyd blaen tŷ a'r tu ôl i'r llenni. Rhaid rhoi leinwyr compostadwy yn y blychau gwastraff bwyd.



Ffigur 1 - blwch bwyd Prifysgol Abertawe i'w ddefnyddio dan do

Os nad oes blwch gwastraff bwyd gan y gegin yn eich ardal, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

### Bin Allanol




Ffigur 2 - Un o finiau allanol Prifysgol Abertawe a gynhelir gan gontractwr

## Lleoliadau a Gwybodaeth Ardaloedd Gwastraff Allanol


**Campws y Bae:**

- Iard Wasanaeth
- Llyfrgell y Bae
- Y Twyni
- Adeilad Gogleddol Peirianneg

**Campws Singleton:**

- Keir Hardie*
- Y Llyfrgell a Chanolfan Gwybodaeth
- Tŵr Faraday*
- Talbot
- Grove*
- Tŷ'r Undeb
- Preseli*
- Langland*
- ILS1*
- Llŷr

*Mae Ewrobiniau 1100L allanol ar gyfer yr ardaloedd hyn bellach yn cael eu storio mewn unedau dan do sydd dan glo.





Ffigur 3:…………………………………………………………………… Campws Singleton: Ardaloedd dan do Ewrobiniau 1100l allanol

Os oes angen, gellir darparu'r côd mynediad ar gyfer y storfeydd hyn ar gais drwy e-bostio estates-waste@abertawe.ac.uk

**Dylech roi gwybod am unrhyw ddifrod i'r storfeydd hyn neu broblemau gyda mynediad cyn gynted â phosib drwy Ddesg Gymorth Ystadau**

## Cost Gwaredu

Mae cost casglu ac ailgylchu gwastraff wedi'i chynnwys yn narpariaeth gwasanaeth rheoli gwastraff y Brifysgol; felly, nid oes cost uniongyrchol i unigolion/Gyfadrannau/Unedau

| |
|---|
| Gwasanaeth Proffesiynol. Fodd bynnag, gall unigolion leihau costau a chyfrannu at darged y Brifysgol i gyflawni cyfradd o **75%** o ran dargyfeirio gwastraff o safleoedd EfW neu dirlenwi drwy sicrhau eu bod yn cael gwared â'r holl ddeunyddiau sy'n addas i'w hailgylchu a gwastraff bwyd yn y biniau penodol, gan leihau effaith amgylcheddol a chefnogi'r economi gylchol. |
| **Labelu**<br><br>Gweler y templed |
| **Am ragor o arweiniad, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk** |


gwastraff bwyd
food waste